Climate Change Newsletter

Mawrth 2021

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Croeso

Croeso i rifyn cyntaf Cylchlythyr newydd Newid Hinsawdd

Helo a Chroeso

Helo a chroeso i Gylchlythyr newydd Newid Hinsawdd, eich 'siop un stop' ar gyfer yr holl wybodaeth ddiweddaraf am Newid Hinsawdd yng Nghymru.

Bydd ein cylchlythyr newydd yn eich helpu i gael yr holl newyddion diweddaraf gan Lywodraeth Cymru am newid yn yr hinsawdd ac yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddiadau, ymgynghoriadau a digwyddiadau cyfredol ac ar ddod, a llawer mwy gan Lywodraeth Cymru.

Newidiadau i'n Deddfwriaeth

Ar 16 Mawrth, pasiodd y Senedd ddeddfwriaeth ar gyfer targed sero-net erbyn 2050 yng Nghymru. Mae hyn yn ein rhoi ar flaen y gad o ran gweithredu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Rydym wedi ymuno â nifer fach iawn o wledydd ledled y byd sydd wedi pennu targed sero-net mewn cyfraith.

Pasiodd y Senedd ddeddfwriaeth targedau interim ar gyfer 2030 (63%) a 2040 (89%) hefyd, a chyllidebau carbon gydol y 2020au. Mae Cyllideb Carbon 2 (2021-25) yn gofyn am ostyngiad cyfartalog o 37%, tra bod Cyllideb Carbon 3 (2026-30) yn gofyn am ostyngiad cyfartalog o 58%. Mae'r terfyn gwrthbwyso ar gyfer Cyllideb Carbon 2 wedi'i bennu ar 0%, sy'n golygu y bydd angen i bob gostyngiad ddigwydd yng Nghymru.

Roedd y targedau a'r cyllidebau'n seiliedig ar argymhellion gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr. (Cliciwch ar y dolenni i weld Path to a Net Zero Wales a Progress Report)

Mae argymhellion y Pwyllgor wedi'u cynllunio'n benodol i adlewyrchu uchelgais uchaf bosibl Cymru o fewn ein galluoedd penodol – fel sy'n ofynnol gan Gytundeb Paris. Bydd y targedau newydd yn lleihau allyriadau y pen blynyddol Cymru i lai na thair tunnell o CO_2 y person cyn 2040, yn unol â llwybrau byd-eang sy'n gyson â chyrraedd y nod o 1.5°C.

Mae Llywodraeth Cymru am anelu mor uchel ag y gallwn ni a chyrraedd y nod cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Rydym yn cael ein hysgogi gan ein

Climate Change Newsletter

Mawrth 2021

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

huchelgais ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ond yn gweithio ar sail tystiolaeth a dadansoddiad yn y pen draw. Mae'r Pwyllgor wedi cynhyrchu glasbrint manwl ac uchelgeisiol ar gyfer cyrraedd y targedau arfaethedig ac rydym yn ei ddefnyddio wrth i ni ddatblygu'n cynllun gweithredu newid hinsawdd nesaf.

Cymru Sero-Net

Roedd y Cynllun Cyflawni Carbon Isel cyntaf yn gychwyn gwych i Gymru i nodi llwybr clir ar gyfer cyrraedd ein targedau lleihau allyriadau. Ein hail gynllun yw'r cam cyntaf ar ein taith i Gymru sero-net ac mae'n rhaid iddo fynd ymhellach. Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod ni'n parhau i edrych i'r dyfodol.

Bydd yr ail gynllun yn canolbwyntio ar:

- Y camau gweithredu (polisïau) y byddwn yn eu cymryd gyda'n gilydd i'n galluogi ni i barhau o fewn y gyllideb hon
- Camau gweithredu arfaethedig y dyfodol dros y tymor hir (polisïau posibl sydd angen eu datblygu ymhellach), a fydd yn ein galluogi ni i ddatgarboneiddio ymhellach yn y tymor hir;
- Camau gweithredu ehangach ac addewidion a wnaed gan ein partneriaid yng Nghymru, a fydd yn cyfrannu at gyrraedd ein targedau newid hinsawdd

Yn ogystal â chyhoeddi'n cynllun nesaf, byddwn yn cyhoeddi'n hadroddiad Cynnydd cyntaf y flwyddyn nesaf, a fydd yn nodi a ydym wedi cyflawni'n cyllideb carbon gyntaf ac yn adrodd ar gynnydd.

COP Cymru

Yn dilyn llwyddiant mawr Wythnos Hinsawdd Cymru 2020 rydym yn ystyried syniadau ar gyfer gweithgarwch eleni.

Er ei bod hi'n gynnar iawn yn y cam cynllunio o hyd gallwch ddisgwyl gweld amrywiaeth o sgyrsiau llawn gwybodaeth, trafodaethau panel, astudiaethau achos a llawer llawer mwy ym mis Tachwedd 2021. Fel gyda'n hagwedd at COP26 ac Wythnos Hinsawdd gyntaf Cymru, byddwn yn atgyfnerthu ein dull Tîm Cymru drwy ofyn i chi beth hoffech chi ei weld fel rhan o'r wythnos.

Bydd mwy o wybodaeth yn rhifynnau'r dyfodol, felly cadwch lygad i weld sut mae'r digwyddiad yn dod yn ei flaen a sut y gallwch chi gymryd rhan!

COP26

Datgan Diddordeb

Yn rhifyn mis Chwefror o'r Cylchlythyr Datgarboneiddio, gofynnom i chi ein hysbysu os oeddech wedi/yn ystyried

Climate Change Newsletter

Mawrth 2021

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cyflwyno cais ar gyfer un o'r llefydd sy'n cael eu rheoli gan Lywodraeth y DU yn yr Uwchgynhadledd yn Glasgow 2021.

Y dyddiad cau ar gyfer datgan diddordeb oedd 5 Mawrth, ond hoffem fachu ar y cyfle i ddiolch i'r rhai sydd wedi'n hysbysu am unrhyw geisiadau ac i atgoffa'r rhai sydd heb wneud i roi gwybod i ni. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ac yn hyrwyddo safbwyntiau a syniadau rhanddeiliaid Cymru yn y cyfnod hyd at COP26.

Cylchlythyr COP26

Byddwn yn mynd i gyfnod cyn-etholiadol yn fuan felly er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am COP, rydym yn argymell eich bod yn cofrestru i dderbyn cylchlythyr COP26 allanol Llywodraeth y DU, a gyhoeddir bob mis drwy dîm ymgysylltu'r Uned a gall partïon â diddordeb gofrestru yma.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae ein dull ymgysylltu diweddaraf ar gyfer Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2 i'w weld yma:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cynllun-cyflawni-carbon-isel-2.pdf

Rydym yn diweddaru ein dull ymgysylltu'n barhaus, felly byddem yn eich annog i gadw llygad, yn enwedig ar dudalennau 19-21, lle byddwn yn diweddaru crynodebau gweithgarwch ymgysylltu ac yn cyhoeddi cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru yn rheolaidd.

Gair i atgoffa…

Cofiwch fod ein hymgyrch adduned ar agor o hyd! Rydym wedi derbyn dros 80 o addunedau o bob sector yng Nghymru sy'n helpu i lywio'n cynllun nesaf, ond hoffem gyrraedd 100 dros y misoedd nesaf.

Daliwch ati i addunedu drwy'r ddolen ganlynol:
https://www.smartsurvey.co.uk/s/rx0po/

Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru

Cymerwch ran a chyfrannwch eich syniadau ar ddatblygu Llwybr Hydrogen Cymru

Agorodd ymgynghoriad yn ceisio barn ar adroddiad Llywodraeth Cymru "Hydrogen yng Nghymru" ar 18 Ionawr, gan rannu cynigion ar gyfer y llwybr a'r camau nesaf ar gyfer datblygu'r sector ynni hydrogen addawol hwn yng Nghymru.

Mae "Hydrogen yng Nghymru" a gomisiynwyd oddi wrth Element Energy, yn gosod llinellau sylfaenol am ble'r ydym yng Nghymru ar hyn o bryd parthed y

diwydiannau a thechnolegau sydd yn gysylltiedig â hydrogen. Mae'n darparu gweledigaeth o Gymru yn y dyfodol sy'n cwmpasu cyfleoedd economi sydd yn fyw hydrogen galluog, yn unol â'r Cynllun Cyflenwi Carbon Isel newydd. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi prosbectws o ddeg amcan tymor byr a fydd yn helpu i gyflymu Cymru i lawr llwybr a alluogwyd gan hydrogen, a gosod y sylfeini ar gyfer graddio i fyny a defnydd masnachol ohono o ddiwedd y 2020au ymlaen.

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad yw 9 Ebrill 2021. Dysgwch ragor a chymerwch rhan trwy glicio ar:

https://llyw.cymru/datblygur-sector-ynni-hydrogen-yng-nghymru

Rhag ofn i chi ei fethu…

Diweddariadau UK ETS

Lansiwyd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (UK ETS) ar 1 Ionawr 2021. Mae'r cynllun yn cwmpasu gorsafoedd peiriannau diwydiannol a phŵer mawr sydd gyda'i gilydd yn cynhyrchu tua 46% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru.

Ar hyn o bryd mae galw agored am dystiolaeth ar ddyrannu lwfansau carbon am ddim o fewn y cynllun.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/969576/uk-ets-call-for-evidence.pdf

Mae Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, y mae pedair llywodraeth y Deyrnas Unedig yn aelodau ohono, yn lansio gwasanaeth newydd i randdeiliaid sydd am wybodaeth ddiweddaraf UK ETS. Bydd tanysgrifwyr yn cael diweddariadau am y cynllun, gan gynnwys canllawiau a thempledi'r Awdurdod, deddfwriaeth, polisi ac ymgynghoriadau.

Cofrestrwch i gael diweddariadau UK ETS yma.

Mwy nag Ailgylchu

Ar 2 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Mwy nag Ailgylchu – strategaeth i wneud yr economi gylchol yn realiti yng Nghymru.

Mae CIWM Cymru'n cynnal a hwyluso cyfres o weminarau i drafod agweddau ar y Strategaeth gyda dinasyddion a rhanddeiliaid, yn cynnwys rhai ar ddefnydd a'r economi gylchol (16 Mawrth); caffael a'r economi gylchol (30 Mawrth); monitro'r economi gylchol (16 Ebrill) a dod yn genedl ddiwastraff (30 Ebrill).

Mae **GIG Cymru** yn bwriadu cyhoeddi ei Gynllun Cyflawni Strategol ar Ddatgarboneiddio ar 24 Mawrth 2021.

Climate Change Newsletter

Mawrth 2021

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cerbydau Sbwriel Allyriadau Isel Iawn

Ar 10 Mawrth dechreuwyd defnyddio cerbyd sbwriel trydan cyntaf Cymru, rhan allweddol o ddatgarboneiddio'r gwasanaeth gwastraff yng Nghymru. Rydym yn bwriadu cyflwyno rhagor o'r cerbydau hyn dros y misoedd nesaf.

http://www.newport.gov.uk/en/Council-Democracy/News/articles/2021/March-2021/Newport-launches-Wales'-first-electric-refuse-collection-vehicle.aspx

Ar 12 Mawrth, lansiodd **cydweithwyr Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru** y cynllun peilot E-feiciau. Am ragor o wybodaeth ewch i https://llyw.cymru/lansio-cynllun-peilot-e-feiciau-yng-nghymru

Bydd y **Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan** yn cael ei chyhoeddi ar 23 Mawrth, yn dilyn ei hymgynghoriad a ddaeth i ben ar 24 Chwefror. Mae rhagor o fanylion ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddwyd fersiwn derfynol o **Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru** ar 19 Mawrth sy'n nodi strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol trafnidiaeth yng Nghymru. Mae'n cyflwyno uchelgeisiau ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf a'n blaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

Polisi Glo

Ar 22 Mawrth, cyhoeddwyd Llywodraeth Cymru ei nod polisi cysylltiedig â echdynnu a defnyddio tanwydd ffosil. https://llyw.cymru/datganiad-polisi-glo

Mae'r datganiad ysgrifenedig diweddaraf a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael hefyd.

Coedwig Genedlaethol Cymru – Eich Barn a'ch Lleisiau

Cynhaliwyd cyfres o sesiynau trafod ar-lein 10-12 Mawrth i roi cyfle i bobl drafod Coedwig Genedlaethol Cymru.

Agorodd y Prif Weinidog y digwyddiad tri diwrnod ar-lein gyda'r cyhoeddiad am brosiect arddangos newydd i gynyddu nifer safleoedd enghreifftiol Coedwigoedd Cenedlaethol ledled Cymru. Coetiroedd fydd y rhain yn ogystal â'r rhai ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru sydd eisoes yn gallu ddangos canlyniadau'r Goedwig Genedlaethol a fydd yn cydnabod yr amser, yr ymdrech a'r brwdfrydedd y mae cynifer o bobl yn eu rhoi i reoli ein coetiroedd gwych.

Yn ogystal â hyn bydd cyllid ar gael i wella coetiroedd i safon Coedwigoedd Cenedlaethol yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer ardaloedd coetiroedd newydd. Bydd rhagor o fanylion yn dilyn dros y misoedd nesaf.

Climate Change Newsletter

Mawrth 2021

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd recordiadau o'r cyflwyniadau a sesiwn holi ac ateb y panel o ddigwyddiad 10-12 Mawrth ar gael yn fuan ar restr chwarae YouTube Coedwig Genedlaethol Cymru.

Gweithio o Bell

Mae Llywodraeth Cymru'n annog mwy o bobl i **weithio o bell** ac wedi pennu uchelgais hirdymor i 30% o weithlu Cymru weithio i ffwrdd o swyddfa draddodiadol, i'w gyflawni drwy fwy o opsiynau a dewis i bobl ynghylch eu gweithle. Gallwch weld yr adroddiad diweddaraf yma https://llyw.cymru/lleoliadau-gweithio-o-bell-wediu-cadarnhau-ar-draws-cymru?

Mae **Cynnal Cymru** yn gweithio gydag ERS Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, cymdeithasau tai lleol a llawer o sefydliadau eraill i gynnal Cynulliad Hinsawdd ym Mlaenau Gwent, y cyntaf o'i fath yng Nghymru.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, ewch i: https://cynnalcymru.com/cynulliad-hinsawdd-blaenau-gwent/?lang=cy

Manylion Cysylltu

Ymholiadau cyffredinol –
Decarbonisationmailbox@gov.wales

Ymholiadau ymgysylltu –
LCDPengagement@gov.wales

Tîm Datgarboneiddio
3ydd Llawr, Parc Cathays 2
CF10 3NQ

Mae rhifynnau blaenorol o'r cylchlythyr ar gael ar gais o flwch negeseuon e-bost Datgarboneiddio.